OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 1841

# Rheoliadau Gofal a Chymorth (Taliadau Gohiriedig) (Cymru) 2015

**Yr amser ar gyfer talu'r swm gofynnol**

**7.** Yr amser penodedig ar gyfer ad-dalu'r swm gofynnol ac unrhyw log a chostau gweinyddol sydd wedi eu trin yn yr un ffordd â'r swm gofynnol yw'r cynharaf o'r canlynol—

(a) dyddiad gwerthu neu waredu eiddo'r oedolyn; neu

(b) 90 diwrnod ar ôl dyddiad marwolaeth yr oedolyn y gwneir y cytundeb ar daliad gohiriedig gydag ef neu unrhyw gyfnod hwy a ganiateir gan yr awdurdod lleol.